# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 28 Rhagfyr 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

**David Melding (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd er mwyn sicrhau bod y 'Cyngor Proffesiynau Iechyd' arfaethedig yn cynrychioli buddiannau Cymru ac egwyddor datganoli. (WAQ8720)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A yw wedi ystyried diwygio adran 8.8.4 y llawlyfr canllawiau ar grantiau'r sector gwirfoddol, o gofio'r baich a roddir ar y sector gwirfoddol gan y ffaith bod yn rhaid i'r cyrff gael gafael ar 25% o'u cyllid eu hunain. (WAQ8721)

**David Melding (Canol De Cymru);** A yw'r weinyddiaeth yn cefnogi egwyddorion Protocol 12 y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. (WAQ8724)

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y goblygiadau i Benodiadau Cyhoeddus yr NHS yn sgil y ffaith nad oes yr un aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen yn siarad Cymraeg. (WAQ8725)

Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth a ragwelir fydd cyfanswm costau mapio'r rhannau hynny o Gymru y bydd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi hawl i bobl gerdded trwyddynt. (WAQ8722)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth a ragwelir fydd cyfanswm cost y gwaith y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ei wneud oherwydd i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ddod yn gyfraith gwlad. (WAQ8723)

Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa mor aml y mae hi'n argymell y dylai Pwyllgorau Addysg Lleol gyfarfod cynrychiolwyr rhieni/llywodraethwyr. (WAQ8726)